**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr

GIG Cymru

3 Gorffennaf 2025

Annwyl Gadeiryddion a Phrif Weithredwyr

**Gwella Perfformiad Gyda'n Gilydd: Camau Gweithredu â Blaenoriaeth i'w Cyflawni ar gyfer Gwell Iechyd a Gofal 2025/26**

Rwyf yn ysgrifennu atoch heddiw i ddod â'r prif dasgau ynghyd inni i gyd ganolbwyntio arnynt yn y flwyddyn i ddod – sef gwella mynediad at wasanaethau, newid y ffordd y mae'r GIG yng Nghymru yn cael ei redeg heddiw, a pharatoi'r GIG ar gyfer y dyfodol.

Dros yr wythnosau diwethaf, bu nifer o gyfleoedd lle'r wyf wedi nodi'r meysydd ffocws allweddol ar gyfer ein system.

Mae'r rhain yn cynnwys pwysigrwydd gwneud mwy ar atal afiechyd, datblygu mwy o wasanaethau yn y gymuned, cael trefn ar ein seilwaith digidol, a newid y ffordd y mae'r GIG yn cael ei redeg – ei arweinyddiaeth a'i ddiwylliant, mwy o weithio rhanbarthol a chryfhau ysgogiadau'r system. Mae'r themâu hyn yn adlewyrchu'r hyn a nodais yn fy *araith i Gydffederasiwn GIG Cymru* ar 7 Ebrill.

Roedd gwaith y *Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Atebolrwydd*, ac yn fwy diweddar y *Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Berfformiad a Chynhyrchiant,* yn gyfranwyr pwysig. Rhoddodd y grŵp olaf, yn arbennig, ystyriaeth fanwl i ba mor dda y mae GIG Cymru yn cyflawni rhai o'i gyfrifoldebau sylfaenol – trin pobl yn gyflym pan fydd arnynt angen help (mewn argyfwng ac ar gyfer gofal a gynlluniwyd), a defnyddio'i adnoddau yn y ffordd orau. Gwnaethant sawl argymhelliad ac rwyf wedi derbyn pob un.

Mae'r rhain i gyd yn adeiladu ar y weledigaeth a nodir yn Cymru Iachach a'r disgwyliadau yn *Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2025-2028* *fframwaith-cynllunio-blynyddol-gig-cymru-2025-i-2028*.

Gan adlewyrchu'r blaenoriaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u nodi ar gyfer Llywodraeth Cymru, mae'n hanfodol bod cynnydd dros ddechrau'r flwyddyn hon o ran amseroedd aros yn cael ei ddwysáu, ledled y wlad ac i bob claf. Rwyf yn disgwyl hefyd i welliannau barhau i gael eu sbarduno i leihau Oedi yn achos Llwybrau Gofal a darparu gwell gwasanaethau iechyd i fenywod.

Mae'r holl ysgogwyr a ddisgrifir uchod naill ai'n sail i'r tasgau allweddol a nodir yn y ddogfen atodedig neu'n cael eu hymgorffori ynddynt. Ni fwriedir i hyn fod yn rhestr gynhwysfawr o'r holl weithgarwch sy'n digwydd ar draws y system – ond yn hytrach y blaenoriaethau allweddol ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol hon. Diben hyn yw darparu eglurder, brys a ffocws o ran ar yr hyn a ddisgwylir, ynghyd â'r disgwyliadau o ran cyflawni ariannol ac ymdopi o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Roeddwn yn ddiolchgar i arweinwyr systemau am gyfrannu eu syniadau fel bod hyn, yn anad dim, yn rhoi agenda gyffredin i ni y gall pawb gyfrannu ati – sef arweinwyr cenedlaethol a lleol, clinigwyr a rheolwyr ar bob lefel – er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf ar gyfer iechyd gwell a GIG sy'n cael ei redeg yn well. Fel y byddech yn disgwyl, dyma'r materion y byddaf am ganolbwyntio'n benodol arnynt pan fyddwn yn trafod cynnydd dros y 12 mis nesaf.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a
Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social
Care

**Gwella Perfformiad Gyda'n Gilydd: Camau Gweithredu â Blaenoriaeth i'w Cyflawni ar gyfer Gwell Iechyd a Gofal 2025/26**

Mae'r GIG wedi cyrraedd trobwynt, a bydd y flwyddyn i ddod yn dyngedfennol ar gyfer y dyfodol. Siglodd pandemig Covid y GIG i'w seiliau, gan adael mynydd i'w ddringo i gael amseroedd aros yn ôl i'r hyn y dylent fod. Ar yr un pryd, mae cyfres o heriau tymor hwy ers cyn Covid y gellir ac y mae rhaid mynd i'r afael â hwy yn awr, os ydym am gael GIG sy'n addas at y dyfodol. Dyna pam yr wyf yn disgwyl i'r system ganolbwyntio ar y cyd dros y flwyddyn nesaf ar adfer y system yn dilyn y niwed a achoswyd gan y pandemig a chefnogi'r GIG i addasu ar gyfer y dyfodol.

Mae tair rhan i'r agenda hon ar gyfer y flwyddyn nesaf:

1. Cyflawni blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG:
    a. Lleihau amseroedd aros (gan gynnwys trosglwyddo cleifion o ambiwlansys)
    b. Lleihau Oedi yn achos Llwybrau Gofal
    c. Gwella gwasanaethau iechyd menywod
2. Cryfhau'r ffordd yr ydym yn rhedeg y GIG
    a. Moderneiddio arweinyddiaeth a diwylliant
    b. Gwella gweithio rhanbarthol
    c. Gwella bod yn agored, atebolrwydd a chydweithredu
3. Paratoi gwasanaethau ar gyfer y dyfodol
    a. Atal afiechyd yn fwy effeithiol
    b. Rhoi mwy o wasanaethau i mewn yn y gymuned
    c. Gwireddu potensial technoleg ddigidol ac arloesedd

## Blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru

Mae gwella mynediad at ofal a gwasanaethau iechyd menywod yn ymrwymiadau gan y Prif Weinidog, ac maent yn parhau i fod ar frig rhestr blaenoriaethau'r Cabinet. Mae llawer wedi'i wneud hyd yn hyn, gydag ymdrechion mawr ym mhob rhan o'r GIG a gwasanaethau gofal; ond mae llawer i'w wneud o hyd.

Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar amseroedd aros - ar gyfer gofal a gynlluniwyd a throsglwyddo cleifion o ambiwlansys. Mae'r GIG wedi llwyddo i leihau'r amseroedd aros hiraf dros y flwyddyn ddiwethaf, ond mae llawer o bobl yn dal i aros yn llawer rhy hir pan fydd arnynt angen help. Mae cyfle enfawr i wella yma, gyda chyfraniadau gan wasanaethau sylfaenol, cymunedol a gofal cymdeithasol, gan helpu pobl i reoli cyflyrau hirdymor, gwella effeithlonrwydd y system ysbytai, a sicrhau bod pobl yn symud yn gyflym i'r gofal y mae arnynt ei angen.

Mae'n rhaid i'r GIG barhau i roi ei egni i wella amseroedd aros ledled Cymru ac, ynghyd â gwasanaethau gofal cymdeithasol, i leihau oedi wrth i gleifion symud o un llwybr i'r llall. Bydd iechyd menywod yn dal yn flaenoriaeth hefyd. Ceir rhagor o fanylion isod ynglŷn â'r hyn y bydd hyn i gyd yn ei olygu. Bydd angen iddo gael ei gyflawni law yn llaw â bodloni ein disgwyliadau o ran cyflawni ariannol a byw o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Lleihau amseroedd aros

Mae'r GIG yn parhau i ddarparu gofal amserol o ansawdd da i'r mwyafrif helaeth o bobl, ond mae angen inni wneud mwy i leihau amseroedd aros hir a'r ôl-groniad a gafodd ei greu yn ystod y pandemig. Mae amseroedd aros hir wedi cael eu torri fwy na 88% ers cyrraedd eu hanterth yn 2022, ond mae angen inni fynd yn llawer pellach i sicrhau bod yr amseroedd aros hynny yn gostwng i lefel lle'r ydym ni, a'r cyhoedd, am iddynt fod. Mae amseroedd aros hir ar gyfer trosglwyddo cleifion o ambiwlansys mewn adrannau brys hefyd yn parhau i gyflwyno risg sylweddol, y gellir ei osgoi, o achosi niwed i ddefnyddwyr gwasanaeth ac mae angen i ni gynllunio i gyflawni'r holl drosglwyddiadau o fewn 45 munud cyn cyfnod y Gaeaf. Byddwn yn gweithio gyda'r GIG i sbarduno gwelliannau pellach ledled Cymru.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn:

- Sicrhau bod unrhyw un y mae arno angen triniaeth ysbyty yn y GIG yn cael mynediad at y driniaeth honno mewn llai na dwy flynedd.
- Lleihau 200,000 ar gyfanswm y rhestr aros.
- Adfer mynediad cyflymach at brofion a sganiau drwy leihau'r amser y mae cleifion yn aros am ddiagnosteg i uchafswm o 8 wythnos erbyn mis Mawrth 2026.
- Adnewyddu'r dull o gyflwyno canllawiau atgyfeirio at driniaeth.
- Sicrhau nad oes unrhyw glaf yn aros mwy na 45 munud i drosglwyddo o ambiwlans

Oedi yn achos Llwybrau Gofal

Mae gwella mynediad at ofal cymdeithasol yn nodwedd allweddol ar system iechyd a gofal cymdeithasol integredig sy'n diwallu anghenion pobl Cymru. Mae galw cynyddol am wasanaethau a chostau cynyddol yn golygu bod ein system gofal cymdeithasol o dan bwysau. Yr her yw nid yn unig bodloni'r galw cynyddol hwn ond hefyd sicrhau bod y gofal a ddarperir yn canolbwyntio ar y person, yn dosturiol ac yn ddigon hyblyg i addasu i anghenion newidiol unigolyn.

Yn ogystal â chefnogi pobl i ddychwelyd adref i wella yn y gymuned ar ôl arhosiad yn yr ysbyty, mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn chwarae rhan hanfodol o ran helpu pobl i fyw'n dda ac aros yn iach gartref, fel nad oes angen iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty o gwbl, neu mor aml.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn:

- Gwella llif cleifion a lleihau oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty fel bod nifer y diwrnodau sy'n destun oedi yn gostwng 20% a chyfanswm nifer yr achosion o oedi yn gostwng 15%.

Gwella gwasanaethau iechyd menywod

Mae cynnydd wedi'i wneud yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf i wella gwasanaethau iechyd menywod. Ond gwyddom fod mwy i'w wneud i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd y mae menywod yn parhau i'w hwynebu. Rydym yn gwybod bod menywod yn dal i wynebu heriau difrifol wrth gael mynediad at ofal iechyd, gan gynnwys tabŵ, stigma a diffyg dealltwriaeth gan eraill wrth drafod eu hiechyd a'u llesiant - a all fod yn rhwystr rhag cael y cymorth cywir. Cyhoeddwyd y Cynllun Iechyd Menywod 10 mlynedd ym mis Rhagfyr 2024 a bydd yn ysgogi'r broses wella.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn:

- Sicrhau bod hwb iechyd menywod yn ardal pob bwrdd iechyd.
- Creu gwefan iechyd menywod wedi'i chyd-ddylunio.

**Cryfhau'r ffordd yr ydym yn rhedeg y GIG**

Yn fy mhrif *araith i Gydffederasiwn GIG Cymru* ar 7 Ebrill , disgrifiais chwe mater sylfaenol a all sicrhau llwyddiant neu ddiffyg llwyddiant dyfodol ein hiechyd fel cenedl a phwysleisiais yr angen hanfodol i fynd i'r afael â'r rhain ar frys. Mae hyn yn golygu gwella arweinyddiaeth a diwylliant y GIG, mwy o weithio rhanbarthol a chryfhau ysgogiadau'r system – fel y gallwn wella'r ffordd y mae'r GIG yn cael ei redeg – a gwneud mwy ar atal afiechyd, datblygu mwy o wasanaethau yn y gymuned, a chael trefn ar ein seilwaith digidol. Mae'r rhain i gyd yn hanfodol i wella perfformiad a chanlyniadau. **Mae'r camau gweithredu a nodais yn fy *araith* i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn wedi'u cofnodi yn yr adrannau isod.**

Bydd adroddiadau'r *Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Atebolrwydd*, ac yn fwy diweddar *Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Berfformiad a Chynhyrchiant,* yn ein helpu i wella perfformiad y GIG, rheoli'r galw yn well a bod yn fwy atebol am ganlyniadau. Mae ein hymatebion i'r adroddiadau wedi'u cyhoeddi ar wahân. **Mae llawer o argymhellion y Grŵp Cynghori ar Berfformiad a Chynhyrchiant, yn enwedig, yn llywio'r camau a ddangosir isod, ac mae ymateb penodol Llywodraeth Cymru i adroddiad Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn nodi'n fanylach sut yr ydym yn bwriadu, ar y cyd â'r GIG, bwrw ymlaen â'r *holl* argymhellion yn ystod y flwyddyn nesaf**. Bydd diweddariadau cynnydd ar hyn, ochr yn ochr â'n hagenda perfformiad a gwella ehangach ar gyfer y GIG, yn llawer mwy tryloyw fel y gall y cyhoedd gadw golwg ar ddatblygiadau.

Ochr yn ochr â hyn, mae eich sefydliadau wedi datblygu cynlluniau ar gyfer sut y bydd gofynion *Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2025-2028* yn cael eu cyflawni. **Rwyf yn disgwyl i'r GIG gymryd y camau galluogi a nodir yn y *Fframwaith Cynllunio* i wella gwasanaethau a chanlyniadau i gleifion a bydd cynnydd yn erbyn y camau hynny gan bob bwrdd iechyd yn cael ei gyhoeddi.**

***Moderneiddio arweinyddiaeth a diwylliant***

Mae ein GIG yn haeddu arweinyddiaeth glinigol a rheoli gref, gan greu'r diwylliant a'r amodau cywir i ofal o ansawdd uchel ffynnu ac i welliant ddigwydd. Rydym yn gweithio ar gynllun hirdymor newydd ar gyfer gweithlu cynaliadwy i gefnogi modelau newydd o ofal. Yn y cyfamser, rydym yn gwybod bod rhaid i'n gweithlu presennol, ar draws pob proffesiwn ac ar bob lefel, feddu ar y sgiliau priodol, bod yn dosturiol a

chael eu cefnogi, a bod rhaid iddynt adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Mae arweinyddiaeth ragorol ar draws y GIG yn hanfodol i ymateb i'r heriau niferus y mae'n eu hwynebu a manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael.

Rydym yn gwybod bod clinigwyr systemau gofal iechyd llwyddiannus ledled y byd i gyd yn chwarae rolau arwain gweladwy. Mae hyn yn berthnasol yn genedlaethol, ond hefyd yn rhanbarthol ac yn lleol. Mae angen inni weld ein clinigwyr – pob proffesiwn, pob arbenigedd – yn awyddus i ymgymryd â'r rolau hyn, i gael llais allweddol yn y modd y mae gwasanaethau yn datblygu, ac wrth wella eu hansawdd.

Rydym yn gwybod hefyd fod mwy i'w wneud wrth ddatblygu rheolwyr y GIG, i sicrhau eu bod yn cymhwyso'r dulliau a'r technegau gorau, yn dysgu oddi wrth ei gilydd, ac yn arwain mewn ffyrdd sy'n briodol i ofal iechyd modern.

Mae angen i'r holl waith hwn gael ei ymgorffori mewn diwylliant sy'n byw gwerthoedd ein gwasanaethau cyhoeddus, sy'n dosturiol ac yn rymus, ac sy'n rhoi cleifion a'r cyhoedd wrth wraidd popeth y mae'r GIG yn ei wneud. Mae angen ffyrdd newydd arnom o sicrhau bod cleifion a'r cyhoedd yn cael eu clywed, a bod camau gweithredu yn cael eu cymryd ar sail eu profiadau.

Mae arweinyddiaeth dda yn gylch rhinweddol clasurol, sy'n arwain at well morâl i staff, gwell recriwtio a chadw staff, gofal o ansawdd gwell a chynhyrchiant gwell.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn:

- Dylunio rhaglen Diwylliant ac Arweinyddiaeth i Weithlu Cymru gyfan i ymgorffori arweinyddiaeth ac ymddygiadau tosturiol a chreadigol.
- Dylunio rhaglen hyfforddi ar gyfer rheolwyr gweithredol ar draws y GIG yng Nghymru i wella sgiliau rheoli ymarferol, meithrin cysondeb a chreu cymuned ymarfer.
- Defnyddio ein model academi addysg a gofal ym maes gofal sylfaenol i gynnig mwy o hyfforddiant a chyfle i ddatblygu sgiliau i weithwyr iechyd cymunedol ac i ddenu a defnyddio mwy o uwch-ymarferwyr yn y gymuned i'n galluogi i ddarparu mwy o ofal yn agos at gartrefi pobl.
- Cyflwyno hyfforddiant carlam ym maes sgiliau clinigol i gefnogi mynediad amserol at ofal a thriniaeth ar gyfer staff endosgopi ac amlawdriniaethol.
- Cryfhau arweinyddiaeth glinigol yn genedlaethol, yn Perfformiad a Gwella GIG Cymru, yn rhanbarthol ac yn lleol i sicrhau bod polisi, cynllunio a gwasanaethau i gyd yn cael eu harwain yn glinigol.

***Gwella gweithio rhanbarthol***

Mae byrddau iechyd lleol yn gyfrwng da ar gyfer cynllunio a darparu ystod gynhwysfawr o wasanaethau iechyd rhyng-gysylltiedig yn lleol, gyda ffocws ar iechyd

y boblogaeth. Ond mae rhai materion lle mae dull rhanbarthol yn well, megis wrth ddarparu rhai gwasanaethau arbenigol llai neu wireddu arbedion maint neu i ganiatáu arbenigedd clinigol y mae arnom ei angen i wasanaethau penodol gael eu cynnal a'u gwella. Rhaid inni ddatblygu ffyrdd effeithiol o sicrhau bod byrddau iechyd yn gweithio gyda'i gilydd yn yr achosion hyn ac yn cael eu cefnogi a'u dal yn atebol.

Bydd yn ofynnol i'r byrddau iechyd felly gydweithio i gynllunio a darparu mwy o wasanaethau ar sail ranbarthol. Bydd hyn yn darparu mynediad mwy amserol at driniaethau pan fo amseroedd aros wedi bod yn hwy neu pan fo gwasanaethau wedi bod yn fwy bregus.

Byddwn yn disgwyl gweld cynnydd pendant ar ganolfannau triniaeth rhanbarthol eleni a byddwn yn defnyddio tîm cenedlaethol pwrpasol i gefnogi mentrau rhanbarthol ledled Cymru gydag arbenigedd ar gynllunio a chyflawni rhanbarthol.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn:

- Gweithio gyda Byrddau Iechyd y De-ddwyrain, datblygu canolfan ragoriaeth y De-ddwyrain ar gyfer diagnosteg ranbarthol a llawdriniaeth ddewisol, o dan oruchwyliaeth Bwrdd Rhanbarthol newydd ar gyfer y De-ddwyrain.
- Agor canolfan orthopedig ranbarthol ar gyfer Gogledd Cymru yn Llandudno.
- Wrth i Weithrediaeth y GIG ddod yn Berfformiad a Gwella GIG Cymru, sefydlu swyddogaeth gymorth ar gyfer cynllunio a chyflawni rhanbarthol, sydd ar gael i'r byrddau iechyd wrth iddynt gydweithio i gyflawni mwy yn rhanbarthol.
- Rhoi i bob bwrdd iechyd y dasg o ddatblygu a gweithredu cynlluniau cyflawni rhanbarthol i fynd i'r afael â gwasanaethau maint uchel a bregus.

### *Gwella bod yn agored, atebolrwydd a chydweithredu*

Mae'r ffordd yr ydym yn gwella ein gallu i ddarparu gwell mynediad i gleifion at ofal yn cynnwys dewisiadau ynghylch y dull o redeg y system gofal iechyd yng Nghymru. Mae tair agwedd ar hyn yn newid dros y flwyddyn i ddod.

Yn gyntaf, bydd y dull o ddal cyrff iechyd i gyfrif yn cael ei finiogi, i wneud atebolrwydd yn fwy effeithiol a hefyd i leihau biwrocratiaeth anghynhyrchiol. Mae hyn yn ymwneud ag atebolrwydd i'r Gweinidogion, ond hefyd ag atebolrwydd i'r poblogaethau a'r cleifion y maent yn eu gwasanaethu, lle mae angen gwneud mwy o waith i weithio gydag eraill.

Yn ail, bydd symud tuag at fod yn fwy agored ym mhopeth a wnawn. Mae'n rhan hanfodol o wella gwasanaethau, a chadw hyder y cyhoedd a chleifion, bod yr holl randdeiliaid yn deall beth y mae cyrff iechyd yn ei wneud, a pham, a'u bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Mae hyn yn ymwneud yn rhannol â sicrhau bod data cyd-destunol defnyddiol ar gael i'r rhai y tu mewn i'r GIG a'r tu allan iddo, ac mewn ffyrdd sy'n gwneud cymhariaeth ddefnyddiol yn syml, yn enwedig i grwpiau

sy'n anos eu cyrraedd yn draddodiadol. Mae'n ymwneud hefyd â chefnogi deialog rhwng rhanddeiliaid a chyrff iechyd i hybu cyd-ddealltwriaeth, ac i feithrin rhannu gwybodaeth sy'n ddefnyddiol i bob un ohonom.

Yn olaf, mae angen inni fanteisio i'r eithaf ar ein maint a'n hundod. Mae Cymru yn ffodus ei bod yn ddigon mawr i reoli ei thynged ei hun, ac yn ddigon bach i weithio gyda'n gilydd. Mae'n bosibl dod â holl arweinwyr allweddol y system ynghyd mewn un ystafell, a gwneud yn siŵr bod arweinwyr cenedlaethol yn deall beth sy'n digwydd ar y rheng flaen. Mae hyn yn golygu y gall ac y dylai sefydliadau ddysgu oddi wrth ei gilydd a rhannu arferion da; cydweithredu a chefnogi ei gilydd; ac y gall y rhai yn y Llywodraeth sicrhau bod ysgogiadau cenedlaethol yn cael eu defnyddio i gynorthwyo cyflawni lleol. Bydd atebolrwydd unigol yn dal yn bwysig; ond felly hefyd weithredu gyda'n gilydd fel system pan fydd angen dulliau cyffredin.

Mae Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn rhan werthfawr o'r seilwaith cenedlaethol sy'n cefnogi perfformiad a gwella. Eleni, bydd nifer o newidiadau i'w gefnogi i gyflawni ei genhadaeth newydd i gefnogi Llywodraeth Cymru a sefydliadau'r GIG – gan gynnwys rheolwr gyfarwyddwr newydd, trefniadau a ddiffinnir yn fwy clir ar gyfer arweinyddiaeth glinigol ac adolygiad cwbl gynhwysfawr o'i gyllideb a'i gyllid i sicrhau bod ei adnoddau yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau sydd â ffocws cryfach.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn:

- Gwella a chryfhau atebolrwydd ac yn symleiddio'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r GIG – drwy lai o dargedau (er enghraifft mewn gofal canser a thrwy roi'r Fframwaith Cynllunio newydd ar waith).
- Cysylltu cyllid ychwanegol i'r byrddau iechyd (y tu hwnt i gyllidebau craidd) â darparu gwelliannau mewn gwasanaethau.
- Adolygu'r meini prawf uwchgyfeirio ac isgyfeirio ar gyfer sefydliadau iechyd i sicrhau eu bod yn cael eu deall yn dda ac yn dryloyw.
- Cyflwyno fforwm atebolrwydd blynyddol lle y bydd y Gweinidogion yn cyfarfod yn gyhoeddus â chyrff GIG Cymru i gynyddu atebolrwydd cyhoeddus.
- I gefnogi pob un o'r uchod, byddwn yn sicrhau bod byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd yn gwneud defnydd gwell a mwy arferol o ddata cymaradwy o bob math, megis y VAULT, i lywio'r gwaith o wella gwasanaethau, a'u bod yn ymrwymo i sicrhau bod ystod ehangach o wybodaeth am berfformiad y GIG ar gael i'r cyhoedd, yn dilyn Datganiad Tryloywder yr hydref hwn.

## Paratoi gwasanaethau ar gyfer y dyfodol

### *Atal mwy effeithiol*

Mae angen inni fod yn llawer gwell am hyrwyddo iechyd da ac atal afiechyd, a lleihau'r llu o anghydraddoldebau iechyd sy'n bla ar ein cenedl ac sy'n peri niwed i fywydau unigolion. Ni fydd y GIG byth yn gynaliadwy os na fyddwn yn llwyddo i wneud hyn.

Mae angen gweithredu ar bob lefel – ar gyfer y boblogaeth gyfan, ar lefel gymunedol, ac wedi'i dargedu'n effeithiol at y bobl hynny sydd fwyaf tebygol o elwa. Mae angen iddo ymdrin hefyd ag atal sylfaenol a'r risg bod salwch yn dychwelyd, a helpu pobl i fyw'n dda gyda chyflyrau hirdymor. Mae hyn i gyd yn golygu defnyddio data yn ddeallus, a chefnogi staff i weithio yn y ffordd fwyaf effeithiol, ar ddulliau y gwyddom eu bod yn gweithio'n dda, yn seiliedig ar dystiolaeth dda. Mae'r rhain yn ffyrdd newydd o weithio y rhoddir pwyslais arbennig arnynt eleni.

Felly, ar lefel y boblogaeth, cyhoeddwyd yn ddiweddar y bydd Cymru yn dechrau gweithio eleni gyda Sefydliad Tegwch Iechyd Syr Michael Marmot i ddod yn Genedl Marmot, er mwyn lleihau anghydraddoldebau iechyd a chau'r bwlch mewn disgwyliad oes iach ar draws ein cymunedau.

Ar gyfer dinasyddion unigol sy'n agored i risg, byddwn yn mynd ati fwyfwy i ddefnyddio data a gwybodaeth am ein cymunedau mewn ffordd well i dargedu a theilwra gofal i'r rhai sydd â chyflyrau cymhleth, cronig. Byddwn yn dechrau drwy gyflwyno gofal lleol gwell, mwy integredig ar gyfer cyflyrau cyffredin, i'w hatal rhag gwaethygu, ac i osgoi'r angen am ofal argyfwng brys.

Dyma ddechrau chwyldro mewn atal effeithiol, gan fod hyn yn caniatáu i'r GIG nodi pobl benodol a fydd yn elwa fwyaf ar gymorth, a gaiff ei ddarparu ar yr adeg iawn a'i dargedu mewn ffordd a fydd yn sicrhau'r siawns orau bosibl y bydd yn gwneud gwahaniaeth.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn:

- Cefnogi'r GIG i gynllunio gwasanaethau sy'n cael eu llywio gan ddata cleifion ac anghenion y boblogaeth leol drwy ddatblygu offer digidol “segmentu'r boblogaeth” i nodi anghenion a risgiau iechyd yn ystod 2025, yn barod i lansio yn ystod 2026.
- Sicrhau bod yr wyth proses ofal a argymhellir gan NICE a'r camau ataliol o dan y rhaglen Datrys Diabetes Gyda'n Gilydd yn cael eu cyflawni yn gyson ar draws pob bwrdd iechyd i leihau'r niferoedd sy'n byw gyda diabetes.
- Sicrhau bod y GIG yn darparu gwasanaeth cwympiadau i gefnogi'r rhai sydd â mân anafiadau neu salwch (Lefelau 1 a 2) heb eu derbyn i'r ysbyty.
- Cyflwyno hybiau diffyg anadl lleol i ddarparu cymorth a gofal arbenigol i bobl sy'n profi diffyg anadl cronig.
- Dechrau datblygu gwasanaeth cenedlaethol newydd ar gyfer sgrinio canser yr ysgyfaint.

### *Rhoi mwy o wasanaethau i mewn yn y gymuned*

Mae'r pwyslais cryfach ar well atal yn perthyn yn agos i newid sylfaenol arall: sef tuag at ddarparu mwy o wasanaethau a gofal yn agosach at ble mae pobl yn byw, a hynny'n gysylltiedig yn aml â gofal sylfaenol. Nid yn unig mae gan hyn y potensial i'w

gwneud yn haws cael mynediad at ofal, ond mae'n golygu hefyd lai o ddefnydd o ddiagnosteg diangen a llwybrau byrrach i glaf gael y gofal y mae arno ei angen.

Bydd y GIG yn gweithio gyda phartneriaid i gryfhau'r llu o wasanaethau sydd eisoes ar gael i wneud gwasanaethau sylfaenol a chymunedol yn fan cyswllt cyntaf a'r unig fan cyswllt i lawer. Caiff hyn yn cael ei wneud drwy brofi, datblygu ac uwchraddio gwasanaethau integredig newydd a modelau gofal cenedlaethol. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn canolfannau iechyd a gofal integredig newydd yn ein cymunedau a chanolfannau gofal brys sy'n darparu gofal yr un dydd. Byddwn yn darparu mwy o gymorth gofal iechyd i'n cartrefi gofal i sicrhau bod rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas yn gallu parhau i gael gofal yn eu cymunedau lleol.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn:

- Agor saith canolfan iechyd a gofal integredig newydd i ddarparu gwell mynediad at ofal ataliol yn y gymuned a gwneud y defnydd gorau o'r ystad iechyd a gofal cymdeithasol.
- Disgwyl i'r byrddau iechyd feintioli eu gwariant presennol ar wasanaethau sylfaenol a chymunedol fel llinell sylfaen, a chytuno â ni ar gynllun 5 mlynedd i symud mwy o wasanaethau o ysbytai i wasanaethau cymunedol, a'r cynnydd mewn buddsoddiad sylfaenol a chymunedol y byddant yn ei ymrwymo er mwyn cyflawni hyn.
- Bydd y byrddau iechyd lleol yn gweithio gyda phractisau meddygon teulu i helpu'r cleifion mwyaf eiddil i gael gofal yn y gymuned, drwy reoli'r boblogaeth risg uchel (0.5%) yn rhagweithiol.

***Gwireddu potensial technoleg ddigidol ac arloesedd***

Bydd angen i unrhyw system gofal iechyd llwyddiannus y dyfodol wneud llawer mwy o ddefnydd o dechnolegau digidol, a hynny ym mhob agwedd ar yr hyn y mae'n ei wneud. Mae heriau sylweddol ynghlwm wrth gyflawni hyn mewn sefydliad mawr a chymhleth fel y GIG – ond mae'r buddion i gleifion yn enfawr.

Eleni, mae angen inni wneud cynnydd ar sail datblygiadau digidol yn y dyfodol, a hefyd o ran sut y gall cleifion ddefnyddio offer digidol heddiw i gael y gofal y mae arnynt ei angen ac i reoli eu cyflyrau. Felly byddwn yn gosod y patrwm ar gyfer ein saernïaeth ddigidol genedlaethol, a fydd yn ganllaw clir ar gyfer yr holl systemau a datblygiadau digidol yn y GIG yn y dyfodol. Ac ar gyfer cleifion, byddwn yn lansio nifer o offer digidol a fydd yn gwella mynediad, cyfleustra a gofal. Byddwn hefyd yn cyflwyno mwy o offer deallusrwydd artiffisial yn y GIG i helpu clinigwyr i nodi camau ataliol, diagnosteg a dewisiadau triniaeth ac i leihau gwaith gweinyddu.

Mae angen mynd i'r afael â'n gallu ar y cyd i fwrw ymlaen â dull strategol o ran gallu digidol hefyd. Fel rhan o hyn, rydym wedi gofyn i Iechyd a Gofal Digidol Cymru wella ei allu ar fyrder i gynllunio, rheoli a chyflwyno prosiectau digidol yn ein system, a byddwn yn ei gynorthwyo i wneud hynny.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn:

- Cyflwyno Ap y GIG i unrhyw un sydd wedi'i gofrestru gyda phractis meddyg teulu yng Nghymru, gyda'r gallu i archebu presgripsiynau rheolaidd, cael cyngor ar reoli eich cyflwr, gwirio eich cofnodion a gwirio eich statws ar restr aros.
- Rhoi system famolaeth ddigidol ar waith ym mhob bwrdd iechyd fel y gall y GIG ddarparu gofal cydgysylltiedig i famau a babanod lle bynnag y darperir y gofal hwnnw.
- Cyflymu'r broses o roi'r system Presgripsiynu a Gweinyddu Meddyginiaethau'n Electronig ar waith er mwyn sicrhau newid sylweddol yn y ffordd y mae meddyginiaethau yn cael eu rheoli a lleihau'r risg o wallau mewn presgripsiynau.
- Cyflwyno offer deallusrwydd artiffisial ac awtomeiddio ar gyfer clinigwyr ac ymarferwyr i leihau baich gweinyddol, cynyddu effeithlonrwydd a chreu effaith gadarnhaol ar ansawdd y gofal, er enghraifft drwy helpu clinigwyr i wneud nodiadau a chyflymu cyfathrebu â chleifion, a thrwy wneud profion diagnostig yn fwy cywir ac effeithlon.
- Datblygu Saernïaeth Darged Genedlaethol ar gyfer dylunio systemau digidol y GIG, er mwyn darparu fframwaith i integreiddio systemau amrywiol ac i ddarparu systemau cofnodion electronig.
- Diwygio gofynion rhannu data ar draws y GIG i ddarparu gofal mwy cydgysylltiedig i gleifion.